**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

Cofnodion y cyfarfod misol yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan ar y **7fed o Dachwedd 2024** am **7:00 yr hwyr.**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), Clifford Williams, John Jones (Garndolbenmaen) Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin) Megan Lloyd Williams, John Till (Golan) Edward Evans, Richard Parry (Bryncir) Cynghorydd June Jones (Cynghorydd Cyngor Gwynedd) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Michael Jones, Enid Egginton (Garndolbenmaen) Jess Williams, Gwenno Emlyn Hughes, Iddon Edwards (Penmorfa), Gwilym Evans (Prenteg) Cynghorydd Stephen Churchman (Cynghorydd Cyngor Gwynedd) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 4. | Datgan buddiant: | Neb |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion | HP yn cynnig a CW yn eilio. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion | <u>Pont y Traeth , Prenteg</u> – GE yn dal i aros am ymateb gan yr Uned Draffig parthed yr arwydd "STOP".<br><br><u>Draen Ffynnon Beuno –</u> Wedi cael ei atgyweirio.<br><br><u>Shelter Bws Garndolbenmaen –</u> Wedi cael ei drwsio ar ddydd Mercher, 9fed Hydref, 2024. Disgwyl taliad gan y cwmni yswiriant.<br><br><u>Pont Rheilffordd Pentrefelin -</u> Gwrych o flaen yr arwydd pont isel yng Nghricieth wedi cael ei dorri ac mae'r arwydd bellach yn weladwy. |
| 7. | Mynwentydd | Adroddwyd fod mynwent Ynys Cynhaearn yn daclus iawn a bod mynwent Prenteg a Bethel wedi cael eu toriad diwethaf.<br><br>Dywedodd y Clerc ei bod wedi holi am bris gan dri pherson ar gyfer cwblhau mân waith ym Mynwent Bethel. Nid oes prisiau wedi'u derbyn eto. |
| 8. | Llwybrau Cyhoeddus | Adroddodd CW fod y camfeydd oedd angen sylw ar lwybr Craig Garn wedi cael eu hatgyweirio. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi | <u>Penmorfa</u> - Dim i'w adrodd<br><br><u>Prenteg</u> - Coeden ger Bwlch y Moch dal i wyro i'r ffordd. Clerc i ddilyn y mater yma i fyny. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Pentrefelin - Adroddwyd fod yr amserlenni bws angen eu glanhau. Bydd hyn yn cael eu gwneud gan Waterworks. Soniwyd fod y rhododendrons wedi'u torri ond ddim digon.<br><br>Golan - Soniwyd fod cangen Merched y Wawr Golan wedi dathlu 50 mlynedd yn ddiweddar. Clerc i gysylltu i'w llongyfarch.<br><br>Garndolbenmaen - Adroddwyd fod llinellau dwbl melyn bellach wedi'u gosod ac nad oes rhwystr bellach i fysus a cherbydau'r gwasanaethau brys. Er hyn, soniwyd bod yna gwyn wedi'i dderbyn gan dirfeddiannwr sydd yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i'w dir oherwydd ceir wedi parcio.<br><br>Bryncir - Adroddwyd fod dŵr yn parhau i godi'r ffordd rhwng Melin Llecheiddior ar bont. Mae'n debyg mai peipen BT sydd yn achosi'r broblem. Clerc i adrodd am hyn.<br><br>Safle Bws Bryncir – Adroddwyd fod y gwrych wedi cael ei dorri ac mae'r gweledolo rhywfaint gwell. Cafwyd cyfarfod safle rhwng EE, RP a Bethany ac Alfie o Ymgynghoriaeth Gwynedd. Trafodwyd y posibilrwydd o symud lleoliad y safle bws ychydig a rhoi shelter newydd heb ochrau yn lle fel ei bod yn haws i yrrwr bws weld pobl yn aros. |
| 10. | Glanhau Llochesi Bws | Derbyniwyd pris o £280.00 gan gwmni Waterworks i lanhau'r safleoedd bysus canlynol:<br>1 x Bryncir<br>1 x Golan<br>2 x Garndolbenmaen<br>3 x Pentrefelin<br>1 x Penmorfa<br>Derbyniwyd y pris. MLW yn cynnig a JJ yn eilio. |
| 11. | Ethol aelod i eistedd ar gorff llywodraethu Ysgol Garndolbenmaen | RP yn cynnig Enid Egginton a CW yn eilio. |
| 12. | Ymgynghoriad dosbarthiadau a mannau pleidleisio | Ymatebwyd i'r ymgynghoriad gyda'r canlynol:<br><br>1)Mae'r orsaf bleidleisio yn un o'r ychydig adnoddau mae'r Cyngor yn ei gyflenwi yn ardal Prenteg felly ac mae'r Cyngor Cymuned yn gadarn wrth ddweud y dylid ei gadw.<br><br>2)Yn ail mae Tremadog tu allan i ardal Dolbenmaen ac felly os bydd is etholiad yn ward Prenteg bydd raid i bawb fynd i |

| | | |
|---|---|---|
| | | Dremadog er bod yna neb o Dremadog yn pleidleisio ar y diwrnod hwnnw.<br><br>3)Yn drydydd os byddai bwriad i'w symud i Benmorfa, mae'r amserlen bws yn ei gwneud hi'n amhosib pleidleisio a dychwelyd mewn amser rhesymol.<br><br>4)Yn bedwerydd ydi hyn yr ail gam i ddileu Cyngor Cymuned Dolbenmaen? Oherwydd rhesymau daearol mae ward Prenteg yn rhan o etholaeth Glaslyn ddim Dolbenmaen. Os fydd hyn yn cael ei dderbyn yna a fydd ward Prenteg yn symud o Ddolbenmaen i Borthmadog. Cyngor trefol yn hytrach na chefn gwlad. Mae hyn wedyn yn agor y drws i symud Golan a Penmorfa i Borthmadog, Garn a Bryncir i Glynnog a Pentrefelin i Gricieth.<br>Mae'r Cyngor Cymuned yn **gwrthwynebu'n gryf a chadarn** yn erbyn y newidiadau arfaethedig yma. |
| 13. | Gwaith National Grid – Llwyth Anarferol | Derbyniwyd alwad ffôn ac e-bost gan Dwynwen Williams sydd yn gweithio ar ran y Grid Cenedlaethol i drafod llwythi mawr fydd yn teithio ar hyd yr A487 drwy Penmorfa er mwyn cludo Peiriant Tyllu Twnnel y prosiect Eryri VIP i safle'r prosiect yn Garth, Minffordd.<br><br>Cadarnhawyd na fydd hi'n orfodol i bobl symud ceir sydd wedi'u parcio ar hyd yr A487 ym Mhenmorfa, ac y gall y loriau basio'n ddiogel hyd yn oed â cherbydau wedi parcio (yn gyfreithlon) ar ochr y lôn.<br><br>Mae'r Grid Cenedlaethol wedi anfon llythyr i drigolion Penmorfa yn egluro'r sefyllfa.<br><br>Er nad yw'n orfodol i bobl symud eu ceir, efallai y byddai rhai'n awyddus i wneud. Maent wedi cysylltu â phwyllgor Neuadd Goffa Penmorfa sydd, yn garedig iawn, wedi dweud y byddai modd agor maes parcio'r neuadd a chaniatáu i drigolion barcio yno dros gyfnod y cludo. |
| 14. | Plas Tan y Bwlch | MLW yn cynnig bod y Cyngor yn cefnogi'r ymgyrch yma i achub Plas Tan y Blwch. Pawb yn gytûn. |
| 15. | Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg | MLW yn cynnig a RP yn eilio bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r adroddiad. Arwyddodd RW y Cadeirydd i gadarnhau ein cefnogaeth. Clerc i gysylltu gyda |
| 16. | Gohebiaeth | a) Rhybudd Cau Ffordd - Capel Horeb i'r gogledd i Fynydd Bach, Garndolbenmaen – 12fed o Dachwedd am gyfnod |

| | | |
|---|---|---|
| | | hyd at 3 diwrnod. Gwaith gan Dŵr Cymru i adfer pibelli dŵr. |
| 17. | Gohebiaeth Ychwanegol | a) Lleoedd am ddim ar gyrsiau hyfforddiant Unllais<br>b) Adroddiad drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (2025-26)<br>c) Unllais Cymru – Rheoliadau Ariannol<br>ch) Cyflog newydd Clerc – yn weithredol o 1af Ebrill 2024 |
| 18. | Cynllunio | **Rhestrau:** 7/10, 14/10, 21/10 a 28/10<br><br>Dim ceisiadau cynllunio |
| 19. | Materion Ariannol | **Ceisiadau am arian:**<br><br>Hosbis Dewi Sant<br>Clwb Merched Garndolbenmaen<br><br>**Monitro'r gyllideb** : Dim gorwariant<br><br>**Biliau i'w talu:**<br><br>Cyflog Clerc = £311.58<br>Ffôn = £ 15.00<br>Cyfrifiadur = £20.00<br>HMRC = £77.80<br>Veolia = £28.96<br>HSBC = £8.00<br>Madog Gardencare (Hydref) = £220.00<br>Ôl-daliad Cyflog Clerc<br>(1af Ebrill hyd at 30ain Tachwedd) = £121.66<br>HMRC (yn dilyn codiad cyflog clerc) = £30.42<br><br>**Derbyniadau: Dim**<br><br>**Balansau Cyfrifon Banc:**<br>Cadw: £42,659.45<br>Cyfredol: £2,419.82 |
| 20. | Gohebiaeth i'r Wasg / Wefan | Hysbyseb Rhoddion Ariannol<br>Enwebu Aelod i Gorff Llywodraethu Ysgol Garndolbenmaen<br>Cefnogaeth i Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg<br>Llwyth Anarferol<br>Merched y Wawr – Dathlu 50 mlynedd |